
# Mae Lasarus yn fyw

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (cyf. Catrin Roberts) Lluniau gan Richard Gunther




**Roedd gan Iesu ffrindiau arbennig yn byw ym mhentref Bethania. Eu henwau oedd Mair, Martha a'u brawd Lasarus. Byddai Iesu'n aros gyda nhw yn aml.**



**Roedd Iesu yn Jerwsalem pan ddaeth rhywun ato i ddweud bod ei ffrind, Lasarus o bentref Bethania, yn sâl.**



**Dau ddiwrnod wedyn dyma Iesu a'i ffrindiau'n dechrau cerdded i Bethania er mwyn gweld Lasarus, ond roedd Iesu'n gwybod bod ei ffrind wedi marw.**



**Rhedodd Martha i gyfarfod Iesu. Dyma hi'n dweud wrth Iesu, "Taset ti wedi bod yma, fyddai fy mrawd ddim wedi marw. Ond dydy e ddim yn rhy hwyr. Rwyt ti'n gallu gwneud unrhyw beth."**



**Dwedodd Iesu wrthi, "Bydd dy frawd Lasarus yn dod yn ôl i fyw," "Dos i nôl dy chwaer, Mair."**



**Roedd Iesu'n drist. Roedd Lasarus yn ffrind iddo. Aethon nhw i'r ogof lle'r oedd Lasarus wedi'i gladdu. Dwedodd Iesu, "Symudwch y garreg." "Bydd e'n drewi erbyn hyn; mae wedi'i gladdu ers pedwar diwrnod," meddai'r bobl.**



**"Os wnewch chi gredu, fe gewch chi weld beth all Duw ei wneud," atebodd Iesu. Dyma Iesu'n gweiddi'n uchel, "Lasarus, tyrd allan!" A dyma Lasarus yn dod allan. Roedd e wedi'i lapio mewn stribedi o ddefnydd.**



**Fe wnaeth Martha a Mair dynnu'r stribedi. Roedden nhw mor hapus fod Lasarus yn fyw! Fe wnaeth llawer o'r bobl welodd y wyrth hon ddod i gredu bod Iesu yn Fab Duw.**